# MANYLEB Y CYNNYRCH

## "Conwy Mussels" / "Cregyn Gleision Conwy"

PDO (X) PGI ( )

## 1 YR ADRAN GYFRIFOL YN YR AELOD WLADWRIAETH

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Department for Environment, Food and Rural Affairs (Defra)
Area 3A
Nobel House
Smith Square
London
SW1P 3JR
United Kingdom
**Rhif ffôn:** +44 20 7238 6951
**Cyfeiriad e-bost**: protectedfoodnames@defra.gsi.gov.uk

## 2 GRŴP

| | |
|---|---|
| Enw: | Grŵp Cregyn Gleision Conwy |
| Cyfeiriad: | Y Cei<br>Conwy<br>LL32 8LF<br>Y Deyrnas Unedig |
| Rhif ffôn: | 01492 592689 |
| Rhif ffacs: | 01492 592689 |
| Cyfeiriad e-bost: | thomasowenjones@hotmail.com |
| Cyfansoddiad: | Cynhyrchwyr: 5 cwch pysgota. Prosesyddion: 4 yn yr uned. |

## 3 MATH O GYNNYRCH

Dosbarth 1.7: Pysgod, molysgiaid a chramenogion ffres a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt

## 4 MANYLEB

### 4.1 Enw:

"CREGYN GLEISION CONWY"

### 4.2 Disgrifiad:

"Cregyn Gleision Conwy" yw'r enw a ddefnyddir i ddisgrifio'r cregyn gleision neu'r Mytilus Edulis a geir yn Aber Afon Conwy, Gogledd Cymru. Caiff Cregyn Gleision Conwy eu cynaeafu yn yr ardal ddynodedig trwy ddefnyddio'r dull traddodiadol o'u cribinio â llaw yn ystod y tymor pysgota cregyn gleision, sef rhwng 1 Medi a 30 Ebrill.

Mae gan "Gregyn Gleision Conwy" gragen galed dywyll sy'n ddu neu'n frown ei lliw. Siâp hirgrwn sydd i'r gragen ac mae ganddi bigyn yn un pen. Fel arfer, mae tu allan y gragen yn llyfn neu bydd gwyddau môr yn sownd ynddi, gan ddibynnu ble y cafodd ei chribinio. Mewn rhai lleoliadau ar wely'r môr, er enghraifft, caiff y cregyn gleision eu gorchuddio gan fwd, ac mae hyn yn rhwystro'r gwyddau môr rhag glynu yn y cregyn; ond yn achos y cregyn gleision hynny a leolir ar rannau tywodlyd neu greigiog yr aber, yn aml bydd gan y rhain wyddau môr, oherwydd gallant lynu yng nghragen y cregyn gleision yn gymharol rwydd.

Gall y cregyn gleision amrywio mewn maint o 4.5cm i 10cm o hyd, ac erbyn hynny byddant yn ddwyflwydd oed o leiaf.

Gan fod "Cregyn Gleision Conwy" yn fwy aeddfed na chregyn gleision eraill pan gânt eu cynaeafu, maent yn fawr, yn gnodiog ac yn gigog, gyda llawer o gig a chymhareb cig-i-gragen uchel. Mae Cregyn Gleision Conwy yn enwog am eu blas hallt amheuthun, suddlon, blasus a'u hansawdd cnodiog, gwerth ei gnoi. Ni ddylai Cregyn Gleision Conwy sydd newydd eu dal fod ag arogl. Mae'r gwahaniaethau cynnil o ran blas Cregyn Gleision Conwy yn deillio o'r ffaith eu bod yn gregyn gleision mawr ac aeddfetach, a hefyd mae'r amgylchedd lle maent yn tyfu yn bwysig yn hyn o beth, gyda'i gymysgedd o ddŵr hallt y môr a dŵr croyw'r afon.

### 4.3 Ardal ddaearyddol:

Mae a wnelo'r ardal ddynodedig â'r ardal lle rhoddir caniatâd i bysgota Cregyn Gleision Conwy. Mae'r caniatâd hwn yn berthnasol i'r rhan o Fae ac Aber Afon Conwy sy'n gorwedd islaw marc penllanw'r gorllanw ac a amgaeir gan linellau a dynnir rhwng pwyntiau A B ac C isod a lleoliad y bont reilffordd dros Afon Conwy (cyfeirnod grid N53 Gradd 280.278 W 003 Gradd 823.611) ynghyd â Chei Conwy. Lledred Hydred

A 53 20.341'N 003 52.790'W

B 53 17.461'N 00354.949'W

C 53 16.672'N 003 53.760'W

### 4.4 Prawf tarddiad:

Mae'r cais hwn yn cyfeirio at gregyn gleision a gaiff eu dal o fewn yr ardal ddynodedig yn Aber Afon Conwy trwy ddefnyddio'r dull traddodiadol o'u cribinio â llaw.

Caiff ansawdd Afon Conwy ei fonitro'n rheolaidd gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

Caiff y gwelyau cregyn gleision yn Aber Afon Conwy eu hamddiffyn gan Is-ddeddfau Pysgodfeydd er mwyn cynorthwyo i'w gwarchod. Cafodd yr Is-ddeddfau hyn eu llunio gan Bwyllgor Dynion Cregyn Gleision Conwy (Grŵp Datblygu Cregyn Gleision Conwy yn ddiweddarach), Cyngor Sir Conwy a Phwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar yr Is-ddeddfau hyn,

a Llywodraeth Cymru hefyd sy'n gyfrifol am eu gorfodi. Mae'r Is-ddeddfau'n nodi bod yn rhaid i bysgotwyr Cregyn Gleision Conwy wneud y canlynol:

- Cribinio'r cregyn gleision o gwch heb fod yn fwy na 15 metr o hyd.
- Defnyddio'u trwydded yn rheolaidd o leiaf unwaith mewn tymor
- Dal y cregyn gleision trwy ddefnyddio cribiniau ffawydd coch nad ydynt yn fwy na metr o led, heb ddefnyddio unrhyw ddull arall.

Mae'n ofynnol i bob pysgotwr cregyn gleision gael "Trwydded Cregyn Gleision" i gynaeafu Cregyn Gleision Conwy o Aber Afon Conwy, a rhaid i bawb sydd â thrwyddedau gadw at yr Is-ddeddfau uchod. Mae gan bob trwydded rif unigryw, a dim ond am dymor y bydd yn ddilys – sef rhwng 1 Medi a 30 Ebrill. Ar ddiwedd y tymor, rhaid i'r pysgotwyr wneud cais am drwydded newydd ar gyfer y tymor canlynol. Caiff y drwydded ei rhoi gan Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru, ac mae'n sicrhau y cedwir cofnod o'r holl bysgotwyr sydd â'r hawl i gynaeafu Cregyn Gleision Conwy. Mae'r drwydded yn caniatáu i'r pysgotwyr wneud y canlynol:

1. Cribinio cregyn gleision o fewn yr ardal ddaearyddol ddynodedig.
2. Pysgota 'unrhyw' fath o bysgod cregyn a geir yn Aber Afon Conwy.
3. Naill ai gwerthu eu dalfa neu ei symud at ddibenion ail-hadu o fewn terfynau'r ardal ddaearyddol ddynodedig.

Ni fydd pysgotwyr Cregyn Gleision Conwy yn cynaeafu Cregyn Gleision Conwy a fydd yn llai na 4.5cm o hyd; erbyn hynny, byddant yn ddwyflwydd oed o leiaf, ac mae hyn yn cydymffurfio â'r Is-ddeddfau Pysgodfeydd.

Er mwyn gallu olrhain Cregyn Gleision Conwy yn llwyr, caiff y dogfennau canlynol eu cadw.

Ffurflen Ddatgan

Fel rhan o'r drwydded, mae'n ofynnol i bob pysgotwr gofnodi pob dalfa/cynhaeaf cregyn gleision trwy ddefnyddio Ffurflen Ddatgan a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i bob pysgotwr gofnodi pob dalfa/cynhaeaf yn ddyddiol ac anfon y taflenni hyn at Adran Pysgodfeydd y Glannau yn Llywodraeth Cymru unwaith y mis. Bydd y rhif awdurdodi ar y ffurflen ddatgan yn cyfateb i ddeiliad y drwydded. Hefyd, bydd y pysgotwr ei hun yn cadw copi o'r Ffurflen Ddatgan.

Mae'r ffurflen ddatgan yn nodi'r canlynol:

- Y dyddiad cynaeafu
- Yr ardal ddaearyddol y pysgotwyd ynddi
- Nifer neu bwysau'r cregyn gleision a gynaeafwyd
- I ba safle puro y cânt eu hanfon
- Enw a chyfeiriad y pysgotwr

Dogfen Gofrestru

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliad CE Rhif 853/2004, mae'n ofynnol i'r pysgotwr a'r safle puro cadw Dogfen Cofrestru Pysgod Cregyn Byw. Bydd y ddogfen hon yn cofnodi'r wybodaeth a ganlyn:-

- Enw a manylion y pysgotwr

- Yr Awdurdod Bwyd lle glaniwyd y pysgod cregyn
- Y dyddiad cynaeafu
- Lleoliad yr ardal gynhyrchu
- Enw a nifer y pysgod cregyn a symudir
- Lleoliad pen y daith, yn cynnwys y rhif cymeradwyo CW006 (CE) sy'n berthnasol i'r safle puro ar Gei Conwy
- Cyfeiriad y ganolfan buro

Cyn iddynt gael eu puro caiff y cregyn gleision eu tywallt i fasgedi, ac yna caiff y basgedi hyn eu pwyso a chaiff y pwysau ei gofnodi. Cedwir cofnodion am y system buro trwy ddefnyddio Cofnod Gweithredu Tanc Puro neu ddull o'r fath, lle cofnodir natur olrheiniadwy'r cregyn gleision, cylchrediad y dŵr, tymheredd y dŵr, yr halwynedd, y dyddiadau a'r amseroedd. Bydd Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd neu swyddogion o'r fath, yn ogystal â Chanolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS), yn gwirio'r cofnodion hyn yn rheolaidd. Bydd y prosesydd (safle puro) yn cofnodi gan bwy y prynwyd y cregyn gleision ac i bwy y cânt eu gwerthu. Gellir olrhain yr wybodaeth hon trwy edrych ar y label dosbarthu sy'n cyfateb i safle puro Conwy, sef CW006.

Ar ôl i'r cregyn gleision fynd trwy'r broses buro, cânt eu didoli a'u harchwilio er mwyn sicrhau mai anifeiliaid byw yn unig a aiff i'r gadwyn fwyd ac er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion sylfaenol a ganlyn:-

- Dim cregyn gleision llai na 4.5cm
- Dim cregyn gleision wedi'u gorchuddio fwy na 50% gan wyddau môr
- Dim cregyn wedi'u torri
- Dim hanner cregyn
- wedi'u puro

Ar ôl cwblhau'r archwiliad, cânt eu rhoi mewn bagiau yn unol â gofynion y cwsmer ac yna caiff y bagiau eu labelu. Mae'r labeli'n benodol iawn, a nodir y dyddiad ac enw'r rhywogaeth, ynghyd â rhif dosbarthu sy'n cyfateb i rif CW006 (CE) y safle puro.

Bydd yr holl gofnodion uchod yn sicrhau y gellir olrhain y cregyn gleision yn llwyr drwy gydol y gadwyn gyflenwi.

### 4.5 Dull cynhyrchu:

Mae holl Gregyn Gleision Conwy yn tyfu'n naturiol ar welyau hadu yn Aber Afon Conwy o fewn yr ardal ddynodedig a nodir uchod. Mae'r cregyn gleision yn tyfu ac yn cael eu cynaeafu yn yr ardal hon. Maent yn tyfu mewn clystyrau clòs, gan ddefnyddio'u hedefynnau i'w clymu eu hunain yn sownd mewn creigiau a cherrig ar wely tywodlyd y môr. Caiff yr edefynnau hyn eu secretu ar ffurf hylif trwchus sy'n caledu ar ôl iddo ddod i gysylltiad â'r dŵr, gan ddal y cregyn gleision yn eu lle.

Yn y gwanwyn bydd y cregyn gleision yn silio a bydd y larfâu'n arnofio yn y plancton cyn cytrefu mewn ardaloedd newydd. Gall cregyn gleision adamsugno'u hedefynnau a symud o gwmpas yr ardal hyd nes y dônt o hyd i'r lle delfrydol i ymgartrefu, ond pur anaml y bydd y cregyn gleision hŷn yn symud.

Yn ystod misoedd yr haf pan fydd y dŵr yn gynhesach, caiff y cregyn gleision lonydd i fridio neu silio. Gan mai yn ystod yr haf maent yn silio, ceir tymor caeedig rhwng 1 Mai a 31 Awst ac ni chaniateir pysgota am gregyn gleision yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn atal niwed i'r poblogaethau silio yn ystod yr adeg hollbwysig hon o'r flwyddyn. Mae'n drosedd casglu Cregyn Gleision Conwy yn ystod y tymor caeedig. Yr adeg hon, bydd y cnawd y tu mewn i'r gragen yn mynd yn wydn ac yn lleihau mewn maint.

Mae'r cregyn gleision yn bwydo trwy sugno dŵr môr a thynnu bwyd neu blancton ohono, cyn poeri dŵr glân allan. Bydd unrhyw facteria sydd yn y dŵr yn aros yn stumog y cregyn gleision, felly dyna pam mae'r broses buro mor bwysig.

Mae'r plancton a gynhyrchir yn ddibynnol ar yr amodau hinsoddol a'r maetholion yn y dŵr. Po ddyfnaf fo'r dŵr, po fwyaf o blancton neu fwyd fydd ar gael i'r cregyn gleision, a pho fwyaf, po iachaf a pho gryfaf fydd y cregyn gleision yn y pen draw. Cyfuniad o'r ffactorau hyn sy'n rhoi blas cynnil ond nodweddiadol i Gregyn Gleision Conwy.

Cribinio'r Cregyn Gleision â llaw

Yn ystod y tymor pysgota cregyn gleision (sef rhwng 1 Medi a 30 Ebrill), caiff y cregyn gleision eu casglu oddi ar wely'r afon trwy ddefnyddio dull pysgota traddodiadol, lle defnyddir cribiniau hir oddi ar gychod bach. Rhaid i'r cychod (yn ôl yr is-ddeddf a nodir uchod) fod yn llai na 15 metr o hyd. Mae hyn yn gwahardd yr arfer o ddefnyddio cychod llusgrwydo i gasglu Cregyn Gleision Conwy. Caiff y cychod bach hyn – sef cychod pysgota drafft bas bach a ddefnyddir yn draddodiadol ar gyfer pysgota – eu galw'n "dories", a chânt eu gweithredu gan un dyn ar bob cwch. Cesglir y cregyn gleision trwy eu cribinio â llaw. Mae angen cryn ymarfer i feistroli'r grefft hon, ac mae'n sgìl sydd wedi'i drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth.

Mae'r broses hon yn unigryw am sawl rheswm:

- Defnyddir cribin llaw wedi'i wneud o ffawydden goch, oherwydd gall blygu heb dorri ac mae'n ddeunydd gwych i'w ddefnyddio ym mhob tywydd gan ei fod yn sychu'n dda. Hefyd, nid yw cribin llaw wedi'i wneud o ffawydden goch yn fflawio'n hawdd, felly mae'n fwy diogel i'r pysgotwyr ei ddefnyddio. Mae'r cribin llaw yn 3 metr o hyd fan leiaf ac mae ganddo ben dur trwm lle ceir dannedd wedi'u gwasgaru ar bellter cyfartal er mwyn caniatáu i gregyn gleision llai na 4.5 centimedr basio trwy'r bylchau. Mae pob pysgotwr yn trin pen ei bolyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod cregyn gleision o'r maint iawn yn cael eu tynnu oddi ar wely'r afon.
- Mae cribinio'r cregyn gleision yn cymryd amser a gofal. Mae'n sgìl sydd wedi cael ei drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth dros nifer o flynyddoedd a bydd angen sawl tymor i'w berffeithio. Caiff mwyafrif y gwaith cribinio ei wneud yn ystod y "distyll", sef cyfnod oddeutu tair awr o hyd – awr a hanner cyn y trai ac awr a hanner ar ôl y trai. Byddai'n gorfforol amhosibl mynd ati i gribinio'r cregyn gleision gyda chribin hir y tu allan i'r amseroedd hyn pan fydd y dŵr yn llanwol.
- Mae cynllun y cribiniau traddodiadol hyn yn sicrhau y bydd unrhyw gregyn gleision llai na 4.5cm o hyd yn syrthio trwy'r bylchau yn y cribin, ac y gallant barhau i dyfu. Bydd yn cymryd dwy flynedd i'r cregyn gleision gyrraedd y maint hwnnw, felly gellir sicrhau bod Cregyn Gleision Conwy yn ddwyflwydd oed fan leiaf a'u bod yn ddigon aeddfed i fod yn fawr a chnodiog pan gânt eu cynaeafu.
- Felly, mae cribinio â llaw yn arfer cynaliadwy sy'n sicrhau mai dim ond cregyn gleision o'r maint iawn a gaiff eu casglu ar ben y cribin, a bod y rhai llai yn syrthio

trwy'r bylchau ac yn aros ar wely'r môr, gan sicrhau na chaiff cregyn gleision iau eu tynnu oddi ar wely'r afon cyn iddynt aeddfedu. Hefyd, mae cribin llaw yn fwy "tyner" ar y gwelyau cregyn gleision, ac mae hyn yn galluogi'r gwelyau i adfer ynghynt yn ystod y tymor caeedig.

Ar ôl y broses gribinio, caiff y cregyn gleision eu storio ar bontŵn arnofiol mewn bagiau cregyn gleision wedi'u gwneud o gotwm, a elwir yn lleol yn "sachau moron", hyd nes y cânt eu symud i'r uned buro i'w prosesu. Ar y pontŵn, yn gyntaf byddant yn cael eu golchi gyda dŵr hallt i gael gwared ag unrhyw weddillion fel mwd neu wymon sydd yn gymysg â'r cregyn gleision ar ôl y broses gribinio.

Mae modd pysgota am Gregyn Gleision Conwy yn dymhorol rhwng 1 Medi a 30 Ebrill. Defnyddir dull pysgota traddodiadol, cynaliadwy ac ecogyfeillgar, gan sicrhau bod y gwelyau cregyn gleision yn cael eu diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cyn dechrau ar y broses buro, caiff y cregyn gleision eu tywallt i fasgedi. Caiff y basgedi eu pwyso a chaiff y cregyn gleision eu golchi unwaith eto gyda dŵr tap yfadwy cyn cael eu symud i'r safle puro. Mae'r broses buro'n cymryd 42 awr fan leiaf i gwblhau'r cylch. Mae'r broses yn golygu rhoi hyd at 750kg o gregyn gleision o'r golwg mewn dŵr môr oddi mewn i danc dur mawr. Yna, caiff y dŵr môr hwn ei bwmpio trwy diwbiau uwchfioled – mae hyn yn lladd unrhyw facteria niweidiol sydd yn y dŵr. Wedyn, caiff ei bwmpio'n ôl i'r tanc. Mae'r system hidlo'n cylchdroi'r dŵr yr un pryd ag y mae'r cregyn gleision yn hidlo'r dŵr. Mae cylchdroi'r dŵr trwy olau uwchfioled yn gwella purdeb y dŵr dros gyfnod o 42 awr, felly trwy gyfuno'r cregyn gleision â'r dŵr hwn gellir sicrhau bod unrhyw facteria'n cael eu golchi ymaith yn llwyr o stumogau'r cregyn gleision.

Mae'r broses buro'n glanhau'r cregyn gleision yn llwyr ac yn eu gwneud yn ddiogel i'w bwyta, heb eu niweidio na newid eu blas. Ar ôl i hyn ddigwydd, mae'r cregyn gleision yn agor rhywfaint a gellir gweld haen denau o ewyn ar ben y tanciau.

Ar ôl y broses buro

Caiff y cregyn gleision amrwd, ffres eu harchwilio. Bydd cregyn gleision sy'n llai na 4.5cm, cregyn gleision marw, cregyn gleision y mae eu cregyn wedi torri neu gregyn gleision sydd wedi'u gorchuddio fwy na 50% gan wyddau môr, yn cael eu tynnu ymaith â llaw. Yna, cânt eu pwyso a'u rhoi mewn bagiau o wahanol faint, yn ôl gofynion y cwsmer. Hefyd cânt eu labelu – mae'r label yn cynnwys y dyddiad, y rhywogaeth, ac enw/rhif y safle puro, a nodir bod yn rhaid i Gregyn Gleision Conwy gael eu gwerthu'n fyw. Yn olaf, caiff y cregyn gleision amrwd, ffres eu cadw mewn oergelloedd a'u storio ar dymheredd o 1-5 gradd Celsius hyd nes y cânt eu gwerthu.

## 4.6 Cysylltiad:

Caiff blas ac ymddangosiad Cregyn Gleision Conwy eu pennu gan yr amgylchedd unigryw lle tyfant. Mae'r plancton a gynhyrchir, yn ogystal â'r cymysgedd o blancton (y mae'r cregyn gleision yn bwydo arno), yn ddibynnol ar amodau hinsoddol, maetholion, bioleg a chynnwys mwynol y dŵr yn yr ardal ddaearyddol ddynodedig.

Mae Aber Afon Conwy yn aber dwfn, ac mae Cregyn Gleision Conwy yn fawr gan eu bod yn tyfu mewn dŵr bas. Po ddyfnaf fo'r dŵr, po fwyaf o blancton neu fwyd fydd ar gael i'r cregyn gleision, a pho fwyaf, po iachaf a pho gryfaf fydd y cregyn gleision yn y pen draw. Hefyd, mae'r aber dwfn yn peri i'r dŵr gylchdroi, yn ogystal â pheri iddo newid trwy bob llanw; mae hyn yn creu amgylchedd lle ceir lefel unigryw o ddŵr môr hallt a dŵr afon melys.

Caiff ansawdd Afon Conwy ei fonitro'n rheolaidd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a chaiff yr afon ei chydnabod fel un o'r afonydd glanaf yn Ewrop. Fel y cyfryw, yn hanesyddol mae nifer o ymchwiliadau ecolegol dan gyfarwyddyd wedi'u cynnal yn yr afon. Mae ansawdd hynod uchel y dŵr ar hyd yr afon a'i dalgylch yn deillio o sawl ffactor:-

- Yn gyntaf, ni cheir diwydiant yn yr ardal. Mae mygdarthau traffig a mygdarthau diwydiannol yn isel iawn o gymharu â dinasoedd mwy, felly mae ansawdd y dŵr yn uwch o lawer o gymharu ag afonydd sy'n llifo trwy ddinasoedd mawr.
- Yn ail, mae'r math o ffermio a welir ar hyd glannau'r afon yn ffermio amgylcheddol-sensitif yn bennaf, a cheir lleiniau clustogi ar lan yr afon i leihau dŵr ffo yn sgil unrhyw arferion amaethyddol dwys – sef dŵr ffo a all gynnwys ffosffadau a nitradau. Ymhellach, ceir darnau mawr o dir wrth ymyl Afon Conwy a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer coetiroedd, ac unwaith eto mae hyn yn gweithredu fel llain glustogi ac yn lleihau dŵr ffo a all gynnwys llygryddion rhag llifo oddi ar y tir i'r afon.
- Yn olaf, ychydig iawn o weithgareddau pysgota a geir yn yr aber. Nid yw Aber Afon Conwy yn borthladd prysur, a phrin yw'r cychod mawr a geir yno. Golyga hyn nad yw gweithgareddau pobl yn amharu ar y gwelyau cregyn gleision. Ni cheir llusgrwydo na physgota masnachol o unrhyw fath ar yr aber, ac eithrio pysgota cregyn gleision, felly ni chaiff y gwelyau cregyn gleision eu niweidio gan weithgareddau o'r fath.

Mae Aber Afon Conwy yn llifo i'r môr. Yn yr ardal hon, lle mae dŵr hallt y môr yn cymysgu gyda dŵr croyw Afon Conwy (oddeutu hanner milltir o hyd), y caiff Cregyn Gleision Conwy eu ffurfio. Y cymysgedd hwn o ddŵr hallt y môr a dŵr croyw dyffryn Conwy sy'n rhoi i Gregyn Gleision Conwy eu blas amheuthun, suddlon a nodweddiadol.

Mae'r gwelyau cregyn gleision yn ffurfio'n naturiol yn Aber Afon Conwy lle ceir cymysgedd naturiol o ddŵr croyw a dŵr hallt o ansawdd uchel. Yn y fan hon y bydd y cregyn gleision yn treulio'u bywydau ac yn y fan hon y cânt eu cynaeafu. Rhydd hyn flas cryfach i Gregyn Gleision Conwy, a hefyd mae'n caledu'r gragen; o gymharu â chregyn gleision a dyfir ar raffau. Gan fod Cregyn Gleision Conwy yn aeddfetach pan gânt eu cynaeafu (daublwydd oed o leiaf), maent yn fwy o ran maint, yn fwy cnodiog ac yn fwy cigog na chregyn gleision a gaiff eu tyfu ar raffau a'u llusgrwydo.

Cyfuniad o'r holl ffactorau hyn sydd, yn y pen draw, yn effeithio ar nodweddion organoleptig y cregyn gleision ac sy'n rhoi i Gregyn Gleision Conwy eu blas nodweddiadol ond cynnil.

Caiff nodweddion "Cregyn Gleision Conwy" eu cysylltu â'r ardal ar sail y traddodiad lleol o ddefnyddio cribiniau llaw i gynaeafu'r cregyn gleision. Mae hyn yn unigryw i'r ardal ac yn sgìl sydd wedi'i drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae pysgotwyr "Cregyn Gleision Conwy" yn defnyddio cychod pysgota drafft bas bach ac unigryw. Yn draddodiadol, defnyddir y cychod hyn – a elwir yn "dories" – i bysgota cregyn gleision a chânt eu gweithredu gan griw un dyn.

Mae'r pysgotwyr yn defnyddio dull pysgota traddodiadol sy'n mynnu sgìl a gwybodaeth am sut i ddefnyddio cribiniau llaw hir wedi'u gwneud o ffawydd coch i bysgota cregyn gleision oddi ar wely'r aber. Mae pedwar teulu wedi cymryd yr awenau o ran defnyddio dulliau traddodiadol o bysgota cregyn gleision yng Nghonwy, ac mae'r sgìl hwn wedi cael ei drosglwyddo o genhedlaeth i genhedlaeth o fewn y pedwar teulu hyn o Gonwy ers mwy na 150 mlynedd.

“Dyma sgìl na all neb ar wahân i bysgotwr profiadol ei haddysgu, mewn gwirionedd, ac yn ôl pob tebyg bydd angen 5-6 tymor i’w feistroli.”

Thomas Jones, Pysgotwr o Gonwy, yn siarad gyda’r Guardian News ac ar BBC News Wales, Hydref 2006

“Nid yw’r grefft o bysgota Cregyn Gleision Conwy wedi newid ers canrifoedd.”

Gwefan History Points 2011

Ar sail cofnodion hanesyddol, mae’r cysylltiad cryf rhwng yr ardal ddynodedig a’r cynnyrch yn amlwg. Mae Aber Afon Conwy wedi bod yn ganolfan bwysig ar gyfer casglu cregyn gleision ers mwy na 500 mlynedd, a chyn yr Ail Ryfel Byd roedd 74 o drwyddedau cregyn gleision ar waith yng Nghonwy. Câi mwyafrif y cregyn gleision eu gwerthu i drefi mawr yng nghanolbarth Lloegr, fel Nottingham a Birmingham. Ond wrth i archfarchnadoedd ddod yn fwyfwy pwysig, câi cregyn gleision eu mewnforio, ac edwinodd y galw am Gregyn Gleision Conwy. Ar hyn o bryd, dim ond 12 o drwyddedau cregyn gleision sydd ar waith yn Aber Afon Conwy.

Mae’r defnydd a wneir o enw Cregyn Gleision Conwy fel cynnyrch o ansawdd wedi datblygu yn sgil gwaith caled Grŵp Datblygu Cregyn Gleision Conwy. Mae Cregyn Gleision Conwy wedi hen ennill eu plwyf a chânt eu cydnabod yn frwd gan y diwydiant bwyd yn y DU a thrwy’r byd. Cânt eu defnyddio gan ben-cogyddion, ac maent yn ymddangos yn rheolaidd ar eu bwydlenni fel cynhwysyn penodol. Mae myrdd o fusnesau bwyd-amaeth a pherchnogion bwytai enwog wedi dweud mai dyma eu hoff gregyn gleision.

Yn ôl Graham Tinsley, Rheolwr Tîm Coginio Cenedlaethol Cymru a Phen-cogydd Gweithredol yng Ngwesty’r Castell, Conwy;-

“Yn syml, Cregyn Gleision Conwy yw’r gorau gan eu bod yn amheuthun ac yn suddlon. Gall y cregyn fod braidd yn rutiog weithiau oherwydd y gwyddau môr, ond dyna pam maen nhw mor dda – maen nhw’n gynnyrch naturiol ac fe allwch chi eu crafu i ffwrdd o fewn ychydig funudau.”

Yn ôl y Pen-cogydd Enwog Phil Vickery;-

“Y peth rhyfeddol ynglŷn â Chregyn Gleision Conwy yw pa mor fawr ydyn nhw…..ac mae Cregyn Gleision Conwy yn fwy blasus, yn dewach ac yn fwy suddlon na chregyn gleision a gaiff eu tyfu ar raffau.”

**4.7 Corff arolygu:**

| | |
|---|---|
| Enw: | IECHYD YR AMGYLCHEDD CYMRU |
| Cyfeiriad: | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Rhif ffôn: | 03708 506 506 |
| Rhif ffacs: | 03708 506 506 |
| Cyfeiriad e-bost: | enquiries@environment-agency.gov.uk |

**Mae’r corff arolygu’n cydymffurfio ag egwyddorion safon EN 45011.**

## 4.8 Labelu:

Amherthnasol